05 Elias_Studia Celtica 50 29/11/2016 13:29 Page 107

STUDIA CELTICA, L (2016), 107–117, 10.16922/SC.50.6

Cam o'r tywyllwch: nodyn ar lawysgrif cyfraith LlGC Peniarth 166[1]

ANGHARAD ELIAS
Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru

Cyfraith Hywel yw'r enw a roddwyd ar y cyfreithiau cynhenid a gadwyd mewn dros ddeugain o lawysgrifau Cymraeg a Lladin sydd yn dyddio o'r cyfnod rhwng *c*.1250 a *c*.1550. Mae'r llawysgrifau cyfraith Cymraeg cynharaf yn perthyn i dri grŵp neu ddull: Llyfr Cyfnerth a gysylltir ag ardal y Gororau, Llyfr Blegywryd a gysylltir â'r Deheubarth a Llyfr Iorwerth a gysylltir â Gwynedd.[2] Dechreua'r rhan fwyaf o'r llawysgrifau â Rhaglith sy'n cysylltu'r gyfraith â'r brenin Hywel Dda, yna rhestrir Cyfreithiau'r Llys.[3] Dilynir hynny gan draethodau sy'n trafod gwahanol feysydd cyfreithiol fel rheolau yn ymwneud â llofruddiaeth (galanas), llosg, lladrad, cyfraith y gwragedd, cyfraith tir a.y.b. Gelwir hyn yn Gyfraith y Wlad.[4] Yn rhai o'r llawysgrifau diweddarach atodwyd deunydd ychwanegol amrywiol megis trioedd,[5] damweiniau (sef cyfresi o reolau yn dechrau gydag *O derfydd* sef 'Pe digwyddai'), a holiadon (sef nifer o gwestiynau ac atebion), at gynnwys y prif ddulliau.[6] Testunau cyfansawdd o'r fath yw *J* (llawysgrif Coleg yr Iesu LVII, *c*.1400),[7] *S* (BL Add. 22356, *s*.xv^{med}), *Tim* (Llanstephan 116, *s*.xv^{med}),[8] *Q* (Wynnstay 36, *s*.xv^{1}) ac *Ep* (Peniarth 258, *s*.xv^{2}, sy'n gopi o *Q*). Grŵp gwahanol o lawysgrifau nad ydynt yn dilyn yr un o'r prif ddulliau ac sy'n cynnwys deunydd amrywiol yn unig yw llawysgrifau *H* (Peniarth 164, *s*.xiv^{2}), *As* (Peniarth 175, *s*.xv^{2}), a *Mor* (Peniarth 36C, *s*.xv/xvi). Llawysgrif cyfraith o'r unfed ganrif ar bymtheg yw Peniarth 166 ac un sydd hithau yn perthyn i'r grŵp hwn. Nid yw'n cynnwys copi cyflawn o'r un o'r prif ddulliau cyfraith traddodiadol ac y mae'n cynnwys peth deunydd amrywiol nad yw'n digwydd yn y llawysgrifau cyfraith eraill. Ni ddefnyddiwyd y llawysgrif gan Aneurin Owen yn ei olygiad cyfansawdd *Ancient Laws and Institutes of Wales*[9] a hwyrach am y rheswm hwn prin iawn yw'r sylw a roddwyd

[1] Rhaid cydnabod fy nyled i Mr Daniel Huws a'm cyflwynodd i'r llawysgrif hon. Hoffwn ddiolch yn arbennig iddo am rannu ei nodiadau ar y llawysgrif ac mae'r disgrifiad o'r llawysgrif yn drwm dan ddylanwad ei 'Repertory of Welsh Manuscripts and Scribes' (teipysgrif heb ei chyhoeddi), 2015. Diolch hefyd i'r Athro Ann Parry Owen a'r Athro J. Beverley Smith am eu sylwadau gwerthfawr.

[2] A. W. Wade-Evans (gol.), *Welsh Medieval Law* [= *WML*] (Oxford, 1909); Stephen J. Williams a J. Enoch Powell (goln.), *Cyfreithiau Hywel Dda yn ôl Llyfr Blegywryd (dull Dyfed)* [= *LlB*] (Caerdydd, 1942); Aled Rhys Wiliam (gol.), *Llyfr Iorwerth* [= *LlI*] (Cardiff, 1960).

[3] T. M. Charles-Edwards, M. E. Owen a Paul Russell (goln.), *The Welsh King and His Court* [= *WKC*] (Cardiff, 2000).

[4] T. M. Charles-Edwards a Paul Russell (goln.), *Tair Colofn Cyfraith, The Three Columns of Law in Medieval Wales: Homicide, Theft and Fire* (Cardiff, 2000).

[5] Am y trioedd gw. Sara Elin Roberts, *The Legal Triads of Medieval Wales* [= *LT*] (Cardiff, 2007).

[6] Gw. C. James, 'Tradition and innovation in some later medieval Welsh lawbooks', *Bwletin y Bwrdd Gwybodau Celtaidd* [= *BBGC*], 40 (1993), 148–56. Gw. hefyd Aled Rhys Wiliam, 'Y deddfgronau Cymraeg', *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru*[= *CLlGC*], 8 (1953–4), 97–103.

[7] M. Richards (gol.), *Cyfreithiau Hywel Dda yn ôl llawysgrif Coleg yr Iesu LVII Rhydychen* [= *J*] (argraffiad diwygiedig, Caerdydd, 1990).

[8] T. Lewis (gol.), *The Laws of Howel Dda: A Facsimile Reprint of Llanstephan MS. 116 in the National Library of Wales, Aberystwyth* [= *Tim*] (London, 1912).

[9] Aneurin Owen (gol.), *Ancient Laws and Institutes of Wales* [= *AL*] (2 gyf., London, 1841).

05 Elias_Studia Celtica 50 29/11/2016 13:29 Page 108

iddi gan ysgolheigion yn y maes.[10] Mae'n llawysgrif gyfansawdd ac y mae Daniel Huws yn dyddio ei thair rhan rhwng dechrau a chanol yr unfed ganrif ar bymtheg.[11] Dyma lawysgrif sydd felly'n cynnig tystiolaeth i'r math o ddeunydd cyfreithiol ymarferol a oedd yn gyfredol yn nyddiau olaf Cyfraith Hywel. Pwrpas y nodyn hwn yw tynnu sylw at y llawysgrif a'i harwyddocâd.

Disgrifiad o'r llawysgrif

Ceir disgrifiad cryno o'r llawysgrif gan J. Gwenogvryn Evans yn ei *Report on Manuscripts in the Welsh Language*.[12] Dyma un o'r ychydig lawysgrifau cyfraith canoloesol a gafodd ei hysgrifennu ar bapur yn hytrach nag ar femrwn.[13] Yng ngeiriau Daniel Huws:

> A composite MS whose three parts, written in s.xvi[1], were bound together before 1600 … Each part is on distinct paper stock; the watermark of (i) is similar to several of Briquet 11159–65 (dated *c*.1500). Part (ii) appears to date about 1550. All parts have contemporary additions evidently made by lawyers.[14]

Mae rhan 1 yn ymestyn o dd. 1–34, rhan 2 o dd. 35–96 a rhan 3 o dd. 99–114. Dwy brif law o tua 1500 sydd i ran 1; un yn llenwi tt. 3–25 a'r llall yn llenwi tt. 27–32.[15] Ceir ychwanegiadau gan lawiau eraill ar dd. 16, 22, 25, 26, 32, 33–4. Ysgrifennwyd mewn inc coch ar waelod t. 34 *yn enw ac rrydedd yr arglwydd* … Yn rhan 2 cofnodwyd enw John Dee ar d. 35 (er mwyn cydnabod ffynhonnell taflen a atgynhyrchir), yna mae un brif law o ganol y ganrif yn llenwi tt. 36–96. Ysgrifennwyd rhan 3 gan o leiaf chwe llaw wahanol o hanner cyntaf y ganrif yn ôl Daniel Huws.[16] Cafodd y ddwy frawddeg gyntaf ar d. 99 eu hysgrifennu mewn inc coch, a gwelir ôl inc coch hefyd ar d. 101.

Gwelir ôl tanlinellu mewn pensil ar dd. 6–7. Tanlinellwyd rhannau o'r testun mewn coch, e.e. ar dd. 6, 45–6. Ar adegau rhoddwyd croesau wrth ymyl y testun, e.e. tt. 56, 65. Gwelir ôl dileu a chywiro drwy'r llawysgrif, e.e. t. 101. Gwelir ychwanegiadau gan nifer o lawiau gwahanol yn rhannau 1 a 3 ond nid 2. Awgryma hyn y câi rhannau o'r llawysgrif eu defnyddio'n ymarferol gan gyfreithwyr yn y degawdau pan oedd y defnydd o Gyfraith Hywel ar fin diflannu. Roedd arglwyddiaeth Dinbych yn cyflogi ynadon a oedd yn arbenigwyr ar Gyfraith Hywel tan ddechrau'r unfed ganrif ar bymtheg;[17] a chofnodwyd achosion yng Nghydweli, Caeo a Dinmael ar ddechrau'r unfed ganrif ar bymtheg.[18] Mae'r llawysgrif hon felly yn tystio i'r hyn a oedd yn bwysig i wŷr y gyfraith cyn i ddyddiau Cyfraith Hywel fel cyfraith weithredol ddod i ben.

[10] Cyfeirir ati yn Rhifyn Arbennig *Cylchgrawn Hanes Cymru: The Welsh Laws* (1963), 66.

[11] Huws, 'Repertory'.

[12] J. G. Evans, *Report on Manuscripts in the Welsh Language I* [= *RMWL*] (London, 1898–1910), tt. 958–9.

[13] Mae llawysgrifau Peniarth 259B (*Z*) ac *Ep* yn rhai papur hefyd.

[14] Huws, 'Repertory'.

[15] Ibid. Mae tt. 1–2 wedi eu difrodi.

[16] Ibid.

[17] J. B. Smith, 'Crown and community in the principality of north Wales in the reign of Henry Tudor', *Cylchgrawn Hanes Cymru*, 3 (1966), 170.

[18] Am yr achos yng Nghaeo gw. T. Jones Pierce, 'The law of Wales – the last phase', yn J. B. Smith (gol.) *Medieval Welsh Society: Selected Essays by T. Jones Pierce* (Cardiff, 1972), tt. 370–2, 381, 387; ac am Ddinmael gw. E. D. Jones, 'Rhannu tir Rhys ab Elise', *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru*, 3 (1943–4), 23–8.

05 Elias_Studia Celtica 50 29/11/2016 13:29 Page 109

Y testun

Mae testun Peniarth 166 yn perthyn i ddull Llyfr Blegywryd ond nid yw'r llawysgrif yn cael ei chrybwyll mewn unrhyw drafodaeth gan ysgolheigion sy'n trafod perthynas llawysgrifau Blegywryd â'i gilydd. Nid fy mwriad wrth drafod y testun yw creu conspectws llawn ond yn hytrach dynnu sylw at berthynas y testun â rhai o'r testunau cyfraith sydd wedi cael eu golygu. Bydd hyn gobeithio yn fan cychwyn i astudiaeth lawnach o gynnwys y llawysgrif.

Rhan 1

Tynnodd J. Gwenogvryn Evans sylw at y ffaith fod tt. 3–19 yn cyfateb i rannau o destun *Ancient Laws* cyfrol 1.[19] Deilliai'r rhannau hynny o lawysgrifau Blegywryd a thynnodd Daniel Huws sylw at y berthynas agos rhwng testun Peniarth 166 a thestun llawysgrif *S*,[20] sydd yn dyddio o ganol y bymthegfed ganrif ac yn cael ei chysylltu â hanner uchaf Dyffryn Teifi.[21] Mae testun Peniarth 166 yn agor gyda darn o Lyfr Blegywryd sy'n sôn am y brawdwr llys ac mae'r testun yn dilyn yr un drefn â llawysgrif *S* (mae trefn y deunydd yn wahanol yn *Llyfr Blegywryd* a'r 'Dimetian Code' yn *Ancient Laws*). Mae tt. 3–10 yn cyfateb i *S* §§ 862–911 ac yn rhoi sylw i swydd a braint y brawdwr llys. Er bod y deunydd hwn yn dilyn yr un drefn â llawysgrif *S*, mae'r geiriad ar adegau ychydig yn wahanol ac yn nes at eiriad llawysgrifau *Tim* a *J*. Mae tt. 11–14 yn cyfateb i *S* §§ 917–44 ac yn sôn am gamfarnu. Mae'r pynciau sy'n cael eu trin yma'n awgrymu mai at ddefnydd brawdwyr o fraint tir y lluniwyd y llawysgrif. Roedd y gyfraith yn cael ei gweinyddu gan ynadon proffesiynol yn y gogledd tra bo brawdwyr amatur yn ôl braint eu tir yn barnu yn y de, rhai a ddibynnai'n helaeth ar gynnwys y llyfrau cyfraith.

Serch hynny, ar d. 15 copïwyd darn hynafiaethol sy'n adrodd sut y rhannodd Rhodri Mawr, brenin o'r nawfed ganrif, ei deyrnas rhwng ei feibion, gw. atodiad 1. Dywedir iddo roi Dinefwr i Gadell, Aberffraw i Ymherawdwr (sy'n llygriad o Anarawd), a Phowys i Ferfyn. Mae'n debyg mai'r cyntaf i gyfeirio at y rhaniad triphlyg hwn oedd Gerallt Gymro, er bod ei drefn ef yn wahanol:[22]

> Yr oedd i Rodericus Magnus, yr hwn a elwid Rhodri Mawr yn Gymraeg, a deyrnasai dros Gymru i gyd, dri mab, Merfyn, Anarawd a Chadell. Rhannodd y tri hyn Gymru i gyd rhyngddynt. Aeth Gogledd Cymru i ran Merfyn, Powys i Anarawd, a Deau Cymru, gyda bendith yr holl bobl ac eiddo ei frodyr, i Gadell.[23]

Ceir cyfeiriad arall at y rhaniad hwn yn *Bonedd Henri Saithved*, testun gan Ieuan Brechfa o ddiwedd y bymthegfed ganrif, sy'n dilyn yr un drefn â Pheniarth 166:

> Ar Rodri mawr hwnn a rannodd Kymry yn dair rann rwng y blant ef: Talaith Dinefwr y Gadell, Talaith Mathrafal y Vervynn, Talaith Aberffraw y Anarod . . .[24]

[19] Meddai: 'See Welsh Laws Vol i. pp. 370 l. 18 to 374 l. 15, 468 to 480 l. 3, 588–592', Evans, *RMWL*, t. 959.

[20] Huws, 'Repertory'.

[21] Golygwyd y llawysgrif gan C. James, 'Machlud Cyfraith Hywel – Golygiad Beirniadol ac Eglurhaol o lsgr. BL Add. 22356 (S)' ar wefan Cyfraith Hywel, http://www.cyfraith-hywel.org.uk/cy/machlud-cyf-hyw.php.

[22] David Dumville, 'The 'six' sons of Rhodri Mawr: a problem in Asser's Life of King Alfred', *Cambridge Medieval Celtic Studies*, 4 (1982), 11.

[23] Thomas Jones, *Gerallt Gymro* (Caerdydd, 1938), t. 168.

[24] P. C. Bartrum, *CLlGC*, 14 (1965–6), 331–2.

05 Elias_Studia Celtica 50 29/11/2016 13:29 Page 110

Yr hyn sy'n gwneud y cofnod ym Mheniarth 166 mor hynod yw ei fod yn nodi ffiniau'r taleithiau ar lannau afonydd ac yn nodi ym mhle y dylid cynnal *istedvod* pe bai gwahaniaeth barn (*ymrysson*) yn codi rhwng y tair talaith. Sylwer mai 'brawdlys' yw un o ystyron cynnar 'eisteddfod' yn ôl *GPC Ar Lein*. Nodir mai ym Mwlch y Pawl[25] yr eisteddid pe bai anghydfod rhwng Dinefwr ac Aberffraw; yn Llyswen ar Wy[26] yr eisteddid pe bai anghydfod rhwng Dinefwr a Mathrafal; ac yn Nôl y Rhianedd[27] yr eisteddid pe bai anghydfod rhwng Aberffraw a Mathrafal. Honnir, yn gamarweiniol, mai ym 1211 O.C. y rhannwyd teyrnas Rhodri Mawr ac y gellid gwirio'r ffaith honno yn y Llyfr Gwyn yn Llanegwest yng Ngwynedd. Llanegwest neu Lanegwestl oedd yr hen enw ar Abaty Glyn-y-groes, ger Llangollen. Roedd sgriptoriwm Glyn-y-groes yn cynhyrchu llawysgrifau Cymraeg o ansawdd uchel[28] ac mae safle llyfrgell yr abaty i'w weld hyd heddiw.[29]

Cyfeirir yn aml at lysoedd Aberffraw neu Ddinefwr yn y testunau cyfraith ond prin yw'r sôn am Fathrafal fel y cyfryw. Sonnir am Fathrafal yn nhestun *H*:

> Tri mechdeyrn dyledoc a ddyly gwladychu Cymru oll dan y therfynau: brenin Aberffraw, arglwyd Dinefwr, a hwnn Mathrafal.
>
> Teir prif lys arbennic sydd i'r tri theyrn hynn, yn essyddynneu breynyawl iddunt: un yw Aberffraw yn Gwynedd, Dinefwr yn y Deheu, Mathrafal Wynfa ym Powys: a llyna mal y dosparthwyt eu tehyrnas wynt yn deir rhan. Un bieu uchafiaeth ar y ddwy, nyt amgen noc Aberffraw pieu y pendifigaeth.
>
> Tri yeirll y sydd danai hi: yarll Caerllion, a iarll Dinefwr, ac iarll Mathrafal.[30]

Cyfeirir at iarll Mathrafal hefyd mewn testun sydd yn adrodd chwedl Maelgwn Gwynedd a gedwir yn llawysgrifau cyfraith *F* (Peniarth 34), llawysgrif goll Llanforda,[31] *D* (Peniarth 32) a *Colan* (Peniarth 40).[32] Aberffraw, Dinefwr a Mathrafal oedd y tair talaith farddol hefyd.[33] Dengys y darn hynafiaethol hwn y diddordeb a oedd gan wŷr y gyfraith yn hanes eu gwlad a tharddiad y gyfraith.

Mae'r testun hwn hefyd yn digwydd yn llawysgrif Llanstephan 12, gw. atodiad 2. Nid yw'r geiriad yn cyfateb yn union yn y ddau destun sy'n awgrymu nad Llanstephan 12 oedd ffynhonnell Peniarth 166, ond maent o bosibl yn rhannu'r un gynsail.[34] Meddai Daniel Huws am Lanstephan 12:

[25] Ar y ffin rhwng Powys a Gwynedd, sydd heddiw hefyd ar y ffin rhwng Trefaldwyn a Meirionnydd. Ceir cyfeiriad at bwysigrwydd y lle fel man i gymodi dadleuon rhwng brenhinoedd Aberffraw a Dinefwr mewn nodyn gan Thomas Newill yn *Collections Historical and Archaeological Relating to Montgomeryshire*, 3 (1870), 301–2.

[26] Ym Mhowys. Mae'r enw'n tystio i bwysigrwydd y safle fel llys.

[27] Mae cyfeiriad at 'morua rianet moelgwn uebyt' yn llawysgrif Hendregadredd, t. 21.

[28] Dyma'r ganolfan bwysicaf oedd yn cynhyrchu llawysgrifau Cymreig o'r drydedd ganrif ar ddeg hyd gyfnod Gutun Owain.

[29] Gwyddom i o leiaf ddau lyfr o'r llyfrgell oroesi, un yw copi o'r bymthegfed ganrif o *Diaglogues of St Gregory* a'r llall yw llyfr cyfansawdd yn cynnwys gwaith Stephen Langton a Buchedd St Bernard o Clairvaux a fersiwn o daith St Brendan: *Valle Crucis Abbey: The Pillar of Eliseg (CADW Guidebooks)*, t. 39.

[30] Dyfynnwyd o'r copi o *H* yn llawysgrif Peniarth 278, t. 13.

[31] Ceir copi o'r llawysgrif yn Panton 17. Gw. Dafydd Jenkins, 'Llawysgrif goll Llanforda o gyfreithiau Hywel Dda', *BBGC*, 14 (1951), 89–104.

[32] Gw. *WKC*, t. 251.

[33] Am Fathrafal gw. H. Pryce, 'Mathrafal: The evidence of written sources', *Mont Coll*, 83 (1995), 61–5; Gw. hefyd G. J. Williams ac E. J. Jones, *Gramadegau'r Penceirddiaid* (Caerdydd, 1934), t. 201; C. J. Arnold a J. W. Hugget, 'Mathrafal, Powys: a reassessment', *BBGC*, 33 (1986), 436–51; J. E. Lloyd, 'Mathrafal', *Mont Coll*, 44 (1936), 44–5. Enwir y tair talaith yn Statud Gruffudd ap Cynan, gw. Thomas Parry, 'Statud Gruffudd ap Cynan', *BBGC* v (1929–31), 25–33.

[34] Mae fersiwn tebyg hefyd i'w gael yn llawysgrif Caerdydd 2.26 (*RMWL* 18), t. 41. Enwir yr enwau lleoedd a'r afonydd ond nid oes cyfeiriad at y Llyfr Gwyn. Mae Daniel Huws yn dyddio'r llawysgrif i *c*.1581–97, gw. 'Repertory'.

05 Elias_Studia Celtica 50 29/11/2016 13:29 Page 111

> A miscellany of pedigrees, annals, triads, etc, written by one hand of s. xvi[med], the earlier part perhaps before 1553 … the compilation of pedigrees from which this MS in part derives may have been written by one from south Wales, could it have been Ieuan Brechfa? The writer of this MS appears also to be from south Wales.[35]

Cyhoeddwyd fersiwn estynedig o'r testun hwn yn *Iolo Manuscripts* ym 1848 sy'n nodi pa frenin oedd yn arglwyddiaethu dros y lleill:

> If contention arise between the provinces of Dinevor and Aberffraw, in Mona, the seat of arbitration shall be at Bwlch-y-Pawl, on Dovey-side; the King of Powis being the juridical and judicial president. If contention arise between the Provinces of Mathraval and Dinevor, the seat of arbitration shall be at Rhyd-helig, on the Wye; the King of North Wales exercising the supreme prerogatives in law and judgment. Should contention arise between the Provinces of Mathraval and Aberffraw, in Mona, the seat of arbitration shall be at Dol-yr-Hunedd, in Ial; the king of Dinevor to exercise supremacy in law and judgment: and wherever the seat of arbitration shall be, there shall also reside the aggregate Sovereignty of the three provinces; which severally, are as follows …[36]

Awgryma'r manylion ychwanegol a'r amrywiadau ar yr enwau lleoedd nad Peniarth 166 na Llanstephan 12 oedd ffynhonnell Iolo Morganwg. Yn amlwg felly parhaodd y stori am Rodri Mawr i fod o ddiddordeb i hynafiaethwyr tan y ddeunawfed ganrif.

Mae tt. 15–19 Peniarth 166 yn parhau gyda thestun Llyfr Blegywryd sy'n sôn am arferion cyfraith sydd hefyd yn cyfateb i *S* §§ 1259–82 (ond nid yn dilyn yr un drefn). Mae tt. 20–2 yn cynnwys darnau amrywiol o Blegywryd sydd eto'n sôn am y brawdwr, e.e. *Tair fordd i dosperthir brawd gyngaws*; *Tri pheth a ddyly brawdwr i ddatkanu pan varno*; *O dri modd i kyll brawdwr gamlwrw o varn*.[37]

Ar d. 22 nodir y blynyddoedd y bu farw, Rhodri Mawr, Alffred frenin Lloegr *a droes kyfreithiev kymrv yn saesnec or gymraec*, Merfyn, Cadell, Anarawd a Hywel Dda. Dyma'r testun sydd yn dilyn hanes Rhodri Mawr yn rhannu ei deyrnas rhwng ei feibion yn Llanstephan 12, sydd eto'n amlygu'r berthynas rhwng Peniarth 166 a'r llawysgrif honno.[38] Mewn llaw wahanol cofnodwyd y canlynol, *Oed krist pannaethbwyd deuddec kyfreth mil a dev cant a thair blynedd ar bymthec a … ar vgen yn amser Edward gynta. gwedi kwnnkwest y bymed vlwyddyn ar rrvgen oi dernas Roeser Mordmer ap Raff Mordmer ap Roeser Mordmer ap hew Mordmer ai gwnnaeth / yn ir amser hwnno vn vrvdyr o says aeth ac nv wvddayd v kymrv bedd a ddyweday v says ac ny wyddayd y says bedd ddeweday yr kymrv*.[39]

Mae tt. 23–4 yn cynnwys damweiniau, *O dervydd bod dadleu y rwng deuddyn am dir [a daear] ac yn y dadlau hwnnw barnu or yngnat gam vrawt…* ac *O dervydd y yngnad barnu cam vrawt yn y ddadleu*. Mae'r damweiniau hyn hefyd yn digwydd yn llawysgrifau *S*, *Tim* a *J*.[40] Mae llawysgrif *S* yn defnyddio'r gair *brawdwr* tra bo *Tim* a *J* yn defnyddio'r gair *ynad* fel Peniarth 166 ac mae amrywiadau testunol eraill yn awgrymu perthynas rhwng y rhan hon o Beniarth 166 a llawysgrif *J*. Ar dd. 24–5 copïwyd triawd, *Tri pheth a ddyly brawdwr o vreint tir y wneythyr kyn barno dim*. Yn llawysgrifau *Q* (*Ep*) a *J* yn unig y ceir y triawd hwn.[41] Yn llawysgrif *J* lleolir y triawd ar ôl y ddamwain *O deruyd y ygnat barnu cam vrawt yn y dadleu*,

[35] Huws, 'Repertory'.
[36] Iolo Morganwg, *Iolo Manuscripts* (1848), t. 405.
[37] *LT*, Q15; Q17; Q18.
[38] Llanstephan 12, t. 113.
[39] Cf. Evans, *RMWL*, t. 959.
[40] *S* §§ 1783–5; *J* 145/17–146/5; *Tim* 73/21–74/8. Gw. hefyd *AL*.VI.82–3/1–17 ac AL.XI.iv.1–2.
[41] Gw. *LT*, Q214 ac *AL*.X.xi.2–3.

05 Elias_Studia Celtica 50 29/11/2016 13:29 Page 112

yn union fel Peniarth 166, a dyma yw diweddglo llawysgrif *J*.[42] Ychwanegwyd y triawd at destun *J* gan law o hanner cyntaf y bymthegfed ganrif.[43] Awgryma hyn mai llawysgrif *J* oedd ffynhonnell y rhan hon o Beniarth 166. Ysgrifennwyd llawysgrif *J* gan Hywel Fychan (prif law Llyfr Coch Hergest) *c*.1400 ar gyfer ei noddwr Hopcyn ap Tomas o Ddyffryn Tawe.[44]

Hefyd ar d. 25 mewn llaw wahanol copïwyd *dadyl am dir* sy'n digwydd yn Llyfr Blegywryd a *S* § 264.[45] Roedd cyfraith tir ac etifeddiaeth yn rhai o'r meysydd cyfraith a barhâi yn weithredol ar ôl dyddiau Ystatud Rhuddlan. Roedd yr achos gerbron dosbarthwyr yng Nghydweli yn y flwyddyn 1510 yn trafod hawliau tir ac achos ynghylch tir a gofnodwyd yng Nghaeo ym 1540.[46] Dilynir hyn gan y geiriau, *K' a dyweid vod hawl a gwrthawl* ac ar waelod y tudalen nodir medd *Res ap Ho' ap Md'*.[47]

Mewn llaw wahanol ar d. 26 copïwyd *O d' bot k' y rwng dev dyn a bot kyngha[6s] a chanlla6 o bob parth* .... ac *O d' bot k' y r6ng deu dyn a holi or ha6l6r rac bronn yr yngnat* ... Mae'r damweiniau hyn hefyd yn digwydd yn *J* a *Damweiniau Colan* ond nid yn *S*.[48] Mae tt. 27–32 yn rhestru *mal i rranwyd ac i messvrwyd ac i rrivwyd kantrefoedd a chymydev holl gymrv yn amser ll' ap gr' y tywyssoc diwaethaf*, mae'r testun hwnnw hefyd i'w gael yn llawysgrifau Cwrtmawr 2 (1543 yn llaw Perys Mostyn o Sir y Fflint) a Pheniarth 163ii (s.xvi, yn llaw Gruffudd Hiraethog).[49] Mewn llaw wahanol ar dd. 33–4 ceir deunydd unigryw hyd y gwelir, *Tri dyn a dervyna i vraint ... ail yw dyn a dervina i vraint hid ar amser gossoddedig o dervidd i ddin roddi i fordd i yn or tair perrindot i ryvain nei i ganawl i bid ney i revel mowr ir pab whnnw nid attebe i neb yn ir ispaid i mai gifrath yn i hispissy yn lle arall y tridid yw o dervid i iscolhig wniddir drwg withraid ag am hynny barny i grogy nei losky nei lethi a galw o honaw vntai ... am i livir* ...

Rhan 2

Ceir tabl ar d. 35 yn nodi, *Ryf vn vlwyddyn ar bymthec or man y bych i vwrw cant mlynedd ar vn llythuren y byd y sul yna ac y mae hediw*. Copïwyd enw John Dee ar flaen y tudalen, sy'n awgrymu mai John Dee oedd yn gyfrifol am gynsail y testun. Ceir triawd unigryw ar ymyl y tudalen, *Tri pheth ni ddichyn neb i gwnevthir. vn yw traethv yr hwnn nis gwypo. ail yw dyall yr hwnn ni wypo i traethv. Trydydd yw dosparth yr hwnn ni wypo i ddyall*. Un o'r ddwy brif law sy'n llenwi tt. 36–96 ac mae'r rhan hon o Beniarth 166 yn perthyn yn agos i'r deunydd sydd yng nghynffon *S* (*S* § 1234 ymlaen yn ôl golygiad Dr Christine James).

Dechreua t. 36 gyda gosodiadau byrion am ranwyr, tystion a cheidwaid sy'n cyfateb i *S* §§ 1529–32. Yn *S* yn unig y digwydd *S*, §§ 1529–31 tra bo § 1532 yn digwydd yn Llyfr Cyfnerth hefyd.[50] Yn dilyn darnau o Lyfr Blegywryd ar y gwys a'r rhingyll ceir triawd sydd a chyfatebiaeth iddi yn llawysgrif *S* yn unig, *Tri dyn ni ellir canlyn cwynev vnic racdunt*.[51] Dengys hyn fod perthynas agos iawn rhwng y rhan hon o'r testun a chynffon *S* neu'r testun a oedd yn gynsail i gynffon *S*. Mae tt. 37–40 yn cyfateb i *S* §§ 1503–28, ac mae'r

[42] *J* 146/6–18.
[43] Ibid., t. x.
[44] Ibid., t. xi.
[45] Cf. hefyd *DC*.II.xx.1.
[46] James, 'Machlud Cyfraith Hywel', t. xix–xxii.
[47] Casglodd dyn o'r enw Rhys ap Hywel ap Maredudd ddirwy yng nghwmwd Caerwedros ym 1421 a chaiff ei enwi o dan *Reeves* yn y cwmwd hwnnw yn Ralph A. Griffiths, *The Principality of Wales in the Later Middle Ages: The Structure and Personnel of Government. 1. South Wales, 1277–1536* (Cardiff, 1972), t. 498. Tybed ai o ffynhonnell gynharach y codwyd hyn?
[48] *J* 140/17–36; *Dw* §§ 483–4; *AL*.V.ii.127–8.
[49] Huws, 'Repertory'.
[50] *WML*, t. 117/10–12.
[51] *S* §§ 1497. Gw. hefyd *LT*, S179.

05 Elias_Studia Celtica 50 29/11/2016 13:29 Page 113

rhan fwyaf o'r darnau hynny yn unigryw i lawysgrif *S* yn ôl conspectws Dr Christine James. Sonnir am sut i 'ddyrchafael', am sarhad ynad llys, a cheir trioedd sydd a chyfatebiaeth iddynt yn *S* yn unig, e.e. *Tri dyn a gynail tir yn llys y brenin*,[52] *Tri dyn ni ddyly vn ohonunt sevyll mywn barn*, *Tri chyffredin gwlad*.[53] Ar dd. 41–2 ceir holiadon sy'n cyfateb i *S* §§ 1534–57.[54] Mae tt. 43–4 yn wag. Cyfetyb tt. 45–8 i *S* §§ 1590–1622; lle sonnir am dir ac amrywion cyfraith; yn llawysgrif *S* yn unig y ceir cyfatebiaeth i'r triawd *Tri peth y sydd iawn i gwadu yn sarhaed*.[55] Gwag yw tt. 49–50, yna mae tt. 51–5 yn cyfateb i *S* §§ 1633–58, lle rhestrir damweiniau a thrioedd. Ym Mheniarth 166, *S* a *Tim* yn unig y digwydd y triawd *Tri peth ni ellir ev gwnevthvr yn apsen tyst*.[56] Mae tt. 56–8 yn dyfynnu darn o Lyfr Blegywryd sy'n sôn am dystion sy'n cyfateb i *S* §§ 435–55. Mae t. 59 yn dychwelyd at y deunydd sydd yng nghynffon *S* ac yn cyfateb i *S* §§ 1618–20 a *Q*. Yna mae'r testun yn cyfateb i *S* §§ 1331–3 sy'n sôn am ddadlau. Mae tt. 60–6 hefyd yn perthyn yn agos i lawysgrif *S*.[57]

Ar d. 67 dyfynnir darn sy'n nodi dechrau'r gynffon yn *S* a *Tim*:

Pen 166, t. 67	Kyn no hynn y dwetpwyd o swyddogion llys bevnyddiawl y brehin a chyfreithev llys y brehin ballach y dywedir o swyddogion y wlad ar kyfreithev kyffredin a ossodet o blegyd brenin rwng y brehin ae wyr ymhob gwlad oe devrnas nid amgen swyddogion a osoded ymob llys o ddadlevoed cwmwt, nev gantref gwned a phywys maer rynghyll yffeirad i ysgrivenv dadleoed ac vn brawdwr o vraint swyd a phedwar swyddawc megs y rai kyntaf ymob llys o dadlevoed cwmwd nev gantref ynehevbarth a llawer o vrawdwyr o vraint tir nid amgen pob p*er*chenawc tir megs yr oedynnt kyn ho*wel* dda herwydd ky*freith* dyvynwal.
S § 1234–6	Kyn no hyn y de6esb6yd o so6ydogyon llys benydya6l y brenhin a chyfreitheu y llys benydya6l. Bellach y de6edir o s6ydogyon y 6lad a'r gy*freith* gyffredin a ossoded o bleid y brenhin rong y brenhin a'e 6yr ymhop g6lad o'e deyrnas. Nyd amgen s6ydogyon a ossoded ym pob llys o dadleuoed k6m6d neu gantref yG6yned a Pho6ys: maer, kyghella6r, righill, offeiriad u yssgrifenu dadloeoed, ac vn bra6d6r o vreint s6yd; a phed6ar s6ydoc megis y rei kyntaf ymhop llys o dadleuoed k6m6d neu ganteref yNeheubarth, a llya6s o vra6d6yr o vreint tir, nyd amgen no phob perchen tir megis yd oedynt kyn Hy6el Da her6yd ky*freith* Dyfyn6al.
Tim 42/30–43/7	Kyn no hyn y dyesb6yd o s6ydogyon llys y benydya6l y brenhin a chyfreitheu llys bennydya6l y brenhin. Bellach y d6edir o s6ydogyon y wlat ar gyfreith gyffredin a ossoded o bleid y brenhin r6g y brenhin ae wyr ymhop g6lad oe deirnas Nyd amgen s6ydogion A ssoded ym pob llys o dadleuoed k6m6d neu gantref. yg6yned. A pho6ys. Maer. Kyghella6r. Righill. Offeiriad y ysgifenu dadloyoed. Ac vn bra6d6r o vreint s6yd. A phed6ar s6yda6c megis

[52] *LT*, S 181.
[53] *LT*, S 184.
[54] Mae rhai o'r holiadon hyn yn digwydd yn llawysgrif *J* hefyd: *J* 90/13–91/27.
[55] *LT*, S 188.
[56] *LT*, S 190.
[57] Mae tt. 60–3 yn cyfateb i *S* §§ 1333–41. Mae tt. 63–5 yn cyfateb i *S* §§ 1323–40; *S* §§ 2499–501 a *S* § 2496. Mae tt. 65–6 yn cynnwys damweiniau a thrioedd tra bo t. 67 yn dychwelyd eto at gynffon *S*.

05 Elias_Studia Celtica 50 29/11/2016 13:29 Page 114

> y rei kyntaf ym hob llys o dadleuoed k6m6d neu gantref yn deheubarth a llya6s o vra6d6yr o vreint tir. Nyd amgen no phop perchen tir megis ydoedynt kyn hy6el da her6yd k' dyfyn6al.

Mae geiriad a sillafiad *S* a *Tim* ychydig yn debycach i'w gilydd na'r hyn a geir ym Mheniarth 166, sy'n awgrymu mai fersiwn o gynsail *S* oedd ffynhonnell Peniarth 166.

Mae tt. 68–70 yn sôn am gynnal gorsedd gyfreithiol ac yn cyfateb i *S* §§ 1237–57; digwydd yr adran hon yn llawysgrifau *Tim* a *Q* hefyd. Cyfetyb tt. 71–5 i *S* §§ 1305–11, lle ceir triawd sy'n sôn am gamddosbarth sydd hefyd yn digwydd yn llawysgrifau *Tim* a *Q*.[58] Cyfetyb tt. 76–83 i *S* §§ 1351–92 sy'n sôn am gyfraith tir a nodir Siartr Hywel Dda. Mae tt. 83–6 yn cyfateb i *S* §§1314–22, sy'n sôn am *tayr gorsed ddygynull*; ceir cyfatebiaeth i'r triawd hwn yn *Tim* a *Q* hefyd.[59] Cyfetyb t. 87 i *S* §§ 1396–1401, sy'n sôn am fechni, ac yna dyfynnir damwain sydd hefyd yn digwydd yn llawysgrif *Q* ond nid yn *S*, *O d' bod kynnen vinc rac rai o greuyddwyr abad llys cwmwd nev gantref*. . .[60] Mae tt. 88–9 yn cyfateb i *S* §§ 1407–14 sy'n sôn am *gosod barn ar vrawdwr* a meichiau. Mae'r triawd *Tri peth nys dychawn mach i gael dros bleid estronawl* yn unigryw i Beniarth 166 a *S*.[61] Cyfetyb tt. 90–5 hefyd i rannau o *S*.[62] Mae t. 96 yn cynnwys darnau unigryw i Beniarth 166 a phwt sy'n cyfateb i *S* §§ 1822–5 sy'n sôn am am lw ceidwad. Mae tt. 97–8 yn wag.

Mae'r testun yn y rhan hon o Beniarth 166 yn perthyn i'r deunydd ychwanegol a geir yng nghynffonnau'r llawysgrifau diweddarach sef *J*, *S*, *Tim* a *Q*, ond mae perthynas agosach rhwng Peniarth 166 a *S*. Awgryma hyn, a'r amrywiadau geiriol eraill, mai cynsail *S* (neu fersiwn o'r gynsail) oedd ffynhonnell y rhan hon o Beniarth 166 yn hytrach na llawysgrif *S* ei hun. Cwyd hyn gwestiynau diddorol am gynsail *S*. Dangosodd Dr Christine James fod y deunydd yng nghynffon *Tim* wedi ei godi o *rol dauid lluid* ac uniaethodd hwnnw gyda'r Dafydd Llwyd ap Gwilym y galwyd arno i weithredu fel dosbarthwr yn 1387–8 yn Ngwynionydd-uwch-cerdin, Ceredigion, ac a fu'n weithredol mewn swyddogaethau cyfreithiol eraill mor ddiweddar ag 1417.[63] Oherwydd y berthynas agos rhwng *Tim* a *S*, awgryma Dr Christine James fod peth o'r deunydd yng nghynffon *S* hefyd yn tarddu o rôl y dosbarthwr hwn. Teg, felly, fyddai awgrymu bod peth o destun Peniarth 166 hefyd yn tarddu o rôl Dafydd Llwyd.

Rhan 3

Mae tt. 99–114 yn cynnwys pytiau o ddarnau cyfreithiol a ysgrifennwyd gan nifer o wahanol lawiau. Agorir y rhan hon gyda rhestr o drioedd sydd i'w cael yn Llyfr Blegywryd.[64] Canolbwyntia tt. 100–1 ar drais morwyn a gwraig. Mae rhai cymalau ar ffurf cynghawsedd. Roedd cynghawsedd yn cynnig model ar sut i gyflwyno achos mewn llys barn gan egluro'r gwahanol gamau yn ogystal â dyfynnu'r ymadroddion y dylid eu defnyddio yn y llys:[65] *A ddico morwyn yn llathryd a dywedyd yr vorwyn pa vaint a roddy dy ym a*

[58] *LT*, Q217.
[59] *LT*, Q219.
[60] AL.X.v.1–2.
[61] Gw. hefyd *LT*, S165.
[62] Cyfateba t. 90 i *S* § 1656 ac *S* §§ 1415–29, tra bo tt. 91–2 yn cyfateb i *S* §§ 1429–48. Mae tt. 92–5 yn cyfateb i S §§ 1456–75 ac mae'r darnau hynny yn unigryw i Beniarth 166 ac *S* ac yn sôn am dir eglwysig a chyfraith y crefyddwyr.
[63] James, 'Machlud Cyfraith Hywel', t. xxi.
[64] *LT*, X33/Q72; Q115; Q135–7.
[65] Cafwyd gwaith pwysig ar gynghawsedd gan T. M. Charles-Edwards yn ei erthygl, 'Cynghawsedd: counting and pleading in Medieval Welsh Law', *Bwletin y Bwrdd Gwybodau Celtaidd*, 33 (1986), 188–98. Gw. hefyd Robin Chapman Stacey, 'Learning to plead in Medieval Welsh Law', *Studia Celtica*, 38 (2004), 107–23; J. Beverley Smith, 'Judgement under the Law of Wales', *Studia Celtica*, 39 (2005), 65–8.

05 Elias_Studia Celtica 50 29/11/2016 13:29 Page 115

dywedut o honnaw ynteu mi a rioddaf yt y veint hon . . . Mae'r testun yn cynnwys rhai elfennau hynafol; fel bod gofyn i'r ferch sydd yn cyhuddo dyn o'i threisio afael yn ei *galy* gyda'i llaw chwith, a rhoi ei llaw dde ar y crair, tra'n tyngu iddo'i threisio.[66] Adleisa'r darn sy'n nodi mai dirwy trais yw gwialen, ffiol a chlawr aur y taliadau am sarhau'r brenin yng nghyfreithiau'r llys. Rhestrir damweiniau ar dd. 102–9 sydd i'w cael yn AL.V.ii (yn seiliedig ar lawysgrifau *D* ac *F*) a *Damweiniau Colan*.[67] Rhestrir nifer o broblemau a allai godi mewn dadl gan ddyfynnu atebion y ddwy blaid a'r dyfarniad. Ceir darn unigryw, hyd y gwelir, ar flaen t. 110 sy'n cyfeirio at yr hyn sy'n *disgin ynghyfraith gyfredin*. Dilynir hynny gan drioedd o Lyfr Blegywryd.[68] Ar d. 111 nodir y blynyddoedd y bu farw *Edward o gaer narvon*, Arthur, a *Kydwaladr vendygaid* ac eto rhestrir trioedd allan o Lyfr Blegywryd.[69] Ceir darn unigryw ar d. 112 sy'n sôn am log, benthyg ac adnau. Roedd eiddo symudol yn cael tipyn o sylw yn y testunau diweddarach ac mae'r darn hwn yn adleisio *Ancient Laws* llyfr IX. Ar ddechrau t. 113 ceir pwt o destun na fedrir ei ganfod yn unman arall, yna copïwyd y triawd *Tri pheth a dyly brawdwr o vreint tir y wnethur kyn barno dim*, triawd sy'n digwydd yn llawysgrifau *Q* (*Ep*) a *J* ac a gafodd ei gopïo eisoes ar dd. 24–5. Mae gweddill y tudalen a thudalen olaf y llawysgrif yn cynnwys testun am darddiad y Rosari: *Pan yttoedd oydran crist mil a thrychant a dwy vlynedd [ar] bymthec i kavat llaswyr vair* . . .

Arwyddocâd y llawysgrif

Ymddengys fod copïwyr gwahanol rannau Peniarth 166 wedi defnyddio nifer o ffynonellau. Mae perthynas rhannau o'r testun gyda llawysgrif *J* o Ddyffryn Tawe, *S* o Ddyffryn Teifi a Llanstephan 12 o ardal Brechfa yn awgrymu mai yn Neheubarth y copïwyd y llawysgrif. Mae cofnodion yr achosion cyfreithiol yng Nghydweli ym 1510 a Chaeo ym 1540 yn dyfynnu llyfrau cyfraith a thynnodd Dr Christine James sylw at y ffaith fod y llyfrau hynny yn debyg eu cynnwys a'u naws i lawysgrifau *S*, *Tim*, *Q* ac *Ep*. Mae Peniarth 166 yn cynnig tystiolaeth i'r math o lyfrau cyfraith oedd yn cael eu cynhyrchu yn Neheubarth ar yr union amser hynny. Ond rhaid pwysleisio nad llyfr ffurfiol sydd ym Mheniarth 166 ond casgliad o'r hyn a welai rhywrai yn ddiddorol a defnyddiol. Dengys y deunydd cyfreithiol sydd yn y llawysgrif pa bynciau a oedd o ddiddordeb yn Neheubarth yn hanner cyntaf yr unfed ganrif ar bymtheg, tra dengys y darnau mwy hynafiaethol a chrefyddol yn rhannau 1 a 3 ddiddordeb mewn testunau diwylliannol ehangach. Mae'n anodd gwybod yn bendant ai ar gyfer anghenion ymarferol brawdwyr o fraint tir y copïwyd gwahanol rannau'r llawysgrif, neu er mwyn diwallu diddordeb diwylliedig pan oedd gweinyddu'r gyfraith yn ymarferol eisoes yn pallu neu wedi darfod. Serch hynny, dylem yn bendant ychwanegu Peniarth 166 at yr hyn a wyddom am hanes a datblygiad y llawysgrifau cyfraith. Mae'n llawysgrif ddiddorol ar y ffin rhwng dau gyfnod gweinyddol a diwylliannol ac nid yw'n haeddu cael ei gadael yn y tywyllwch.

[66] Cf. *LlB*, 63/23–29; *WML*, 92/13–18; *LlI*, § 50/3–8.

[67] *AL*.V.ii.120; *AL*.V.ii.108–9; *AL*.V.ii.129; *AL*.V.ii.130–2; *AL*.V.ii.137–8. *Dw* § 471; §§ 437–40; §§ 487–8; §§ 490–4; § 503.

[68] *LT*, Q2; Q125–6

[69] *LT*, Q182; Q223–4.

05 Elias_Studia Celtica 50 29/11/2016 13:29 Page 116

Atodiad 1: Peniarth 166, t. 15

Atgynhyrchir yma destun y llawysgrif, gan ddilyn yr un rhaniadau geiriau / llinellau, priflythrennau ac atalnodi ag a geir yn y llawysgrif. Ychwanegwyd geiriau coll y gellir bod yn sicr ohonynt rhwng bachau petryal.

1. Rodri mawr tywyssog y brytanied a dewis y [
2. oi dri maib Kadell ap rodri y gavas dinewr o d[dyfi]
3. i vor hafren ac hyd yngwy ac os ymrysson a vydd [rwng]
4. dinevwr ac a berffro ym mwlch y pawl y maer istedvot
5. ryngtynt os amrysson a vyd rwng dinewr a matheraval
6. yn y llys wen ar wy i maer istedvod ryngtynt ymherowdr
7. ap rodri a gavas y berfro or clawdd i vyny hyd y mor Ac
8. hyd yndyvyrdwy a dyvi ~~os~~ ac os ymryson vydd ryng y
9. berffro a mathraval yn ol y rhianedd i maer ysteddvod
10. ryngtynt mervyn ap rodri a gavas talaeth matheraval
11. o ddyvyrdwy i bont gaer loyw ac o bwll polford hyd yn
12. ryd helic ar wy oydran yr arglwydd pyn ranwyd y rahin
13. mil a cc ag vn vlyned ar deg pwy gynnag a vynno gwirio
14. ni hyn aed i lanegwest yngwynedd lle mae y llyvyr
15. gwyn eff e ai kaf hwynt yn warantedic

Atodiad 2: Llanstephan 12, t. 111

4. Rodri mawr tywysog y brytan
5. iaid a adewis y tair talaith ky
6. mry i dri maib nid amgen Kadell
7. anarawd a merfyn
8. Kadell ap Rodri a gafas talaith din
9. efwr o ddyfi y vor hafren ag
10. hyd yngwy ag os ymryson a
11. vydd rrwng dinefwr ac berffro
12. y mwlch y pawl i may yr isteddfod
13. rryngtynt os ymryson a vydd rrwng
14. dinefwr a mathrafael yn y llys
15. wenn ar wy y may yr isteddfod rryn

t. 112

1. tynt Anarawd ap Rodri a
2. gafas y berffro or klawdd y
3. vynydd hyd y mor ag hyd yn
4. y[s]tr[a]d wy a dyfi ag os ymryson
5. a vydd rrwng y berffro a math
6. rafael ynol y rrianedd y may
7. ~~rryddynt merfyn ap Rodri a~~
8. ~~gafas~~ yr isteddfod rryddynt

05 Elias_Studia Celtica 50 29/11/2016 13:29 Page 117

9. Merfyn ap Rodri a gafas talaith
10. mathrafael o ddyfrdwy y bont
11. gaer loyw ag o bwll pwlffordd
12. hyd yn rryd helig ar wy oed
13. Krist pan ranwyd yr hai
14. hyny mil a day kant ag vn
15. vlwyddyn ar ddeg pwy byn
16. ag a vyno gwirioni hynn
17. aed i lan egwest yngwynedd
18. lle mae llyfyr gwyn ag yno

t. 113
1. y traethir am danynt yn war
2. antedig

05 Elias_Studia Celtica 50 29/11/2016 13:29 Page 118